# BWRDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## COFNODION Y CYFARFOD DDYDD IAU 18 MAWRTH 2021

**Aelodau sy'n bresennol:**

| | |
|---|---|
| Lindsay Foyster | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol |
| Amanda Hughes | Aelod cyflogai etholedig |
| Anne Beegan | Aelod cyflogai etholedig |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| Elinor Gwynn | Aelod anweithredol |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Kevin Thomas | Aelod cyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio |
| Katherine Drysdale | Arbenigwr y Gyfraith a Moeseg (cofnodion) |
| Laurie Davies | Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitem 6) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitemau 7 ac 8) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 7 ac 8, a 12 ar gyfer cymryd cofnodion) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| **Rhan 1: rhagarweiniad** | |
| **1** | Croeso’r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb |
| **2** | Datgan buddiannau |
| **Rhan 2: i'w drafod** | |
| **3** | Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr |
| **4** | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd |
| **5** | Adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd |
| **6** | Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol |
| **7** | Adolygiad perfformiad gan gynnwys yr adroddiad risg strategol a'r adroddiad cyllid |
| **Rhan 3:i'w gymeradwyo** | |
| **8** | Cynllun blynyddol drafft 2021-22 |
| **9** | Cofnodion y cyfarfod ar 27 a 28 Ionawr 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi (gan ddefnyddio'r teclyn tracio camau gweithredu) |
| **10** | Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| **11** | Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol |
| **12** | Trefniadau cymorth y Bwrdd |
| **13** | Rhaglen waith y Bwrdd 2020-21 |
| **14** | Unrhyw fater arall |
| **15** | Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 ac 10 Mehefin 2021 |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| **Rhan 1: rhagarweiniad** | | |
| **1.** | **Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai hynny a oedd yn bresennol; ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| 1.2 | Alison Gerrard fyddai'n creu blog y cyfarfod. | AG |
| **2.** | **Datgan buddiannau** | |
| 2.1 | Datganodd Katherine Drysdale fuddiant yn eitem 12 (trefniadau cymorth y Bwrdd) a byddai'n gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno. Byddai Matthew Hockridge yn bresennol i gymryd y cofnodion. | |
| **Rhan 2: i'w drafod** | | |
| **3.** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr** | |
| 3.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig a thynnodd sylw at y canlynol:<br>• byddai ei adroddiad ar raglen Profi, Olrhain a Diogelu Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi yr wythnos hon;<br>• roedd Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd a oedd yn ymadael wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y berthynas a'r cyfathrebu prydlon rhwng Archwilio Cymru a'r Pwyllgor; | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | • roedd yr arolwg a reolir yn allanol o aelodau'r Senedd wedi dechrau ac o'r aelodau y cysylltwyd â nhw dim ond un sydd wedi gwrthod cymryd rhan hyd yn hyn;<br>• roedd wythnos ddysgu Covid wedi bod yn hynod lwyddiannus gydag ymgysylltiad cryf o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt – anogodd yr aelodau i wylio'r fideos a'r llif cysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol a byddai ef yn cylchredeg y dolenni. | AGW |
| 3.2 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **4.** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd** | |
| 4.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd ei diweddariad ysgrifenedig ac ar ran y Bwrdd, gwnaeth hi longyfarch Ann-Marie Harkin ar ei phenodiad i swydd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio. Nododd y Bwrdd fod y Tîm Cyfarwyddwr Gweithredol bellach wedi'i gwblhau ac yn edrych ymlaen at ddatblygu ei berthynas waith â'r tîm hwnnw. | |
| 4.2 | Adroddodd yr Arbenigwr ar y Gyfraith a Moeseg fod saith tendr wedi'u derbyn ar gyfer adolygiad effeithiolrwydd allanol y Bwrdd a bod y broses sgorio ar y gweill. Esboniodd fod disgwyl i'r gwaith ddechrau ym mis Ebrill a byddai'n diweddaru llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd gyda dogfennau perthnasol ac yn cynghori aelodau drwy e-bost pan fyddai'r penodiad yn cael ei wneud. | KD |
| **5.** | **Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd** | |
| 5.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd bapur a oedd yn crynhoi canlyniadau hunanasesiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd a'r camau nesaf arfaethedig. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Bwrdd wedi asesu ei hun i raddau helaeth i fod yn gymedrol effeithiol i effeithiol iawn. Roedd hyn yn dangos newid cadarnhaol o'r asesiad blaenorol, ond roedd meysydd i'w gwella o hyd a byddai hunanasesu'n cyfrannu at yr adolygiad allanol arfaethedig o effeithiolrwydd. | |
| 5.2 | Cytunodd y Bwrdd y dylai grŵp gorchwyl a gorffen ddatblygu cynllun gweithredu cychwynnol o gamau gweithredu wedi'u blaenoriaethu, gan gydnabod<br>• y byddai angen gwneud rhagor o waith i ddeall y rhesymu a'r safbwyntiau gwahanol a adlewyrchir yn y sgorio; ac<br>• y byddai'n bwysig i'r Bwrdd berchnogi'r camau gweithredu ar y cyd a, phan yr oedd y rhain yn rhai a rennir, cydweithio'n effeithiol â'r rheolwyr. | |
| 5.3 | Ystyriodd y Bwrdd yn fyr:<br>• yr angen i'r cynllun gweithredu ymgorffori dull o asesu cynnydd;<br>• sut y gellid datblygu amseriad, hyd a fformat cyfarfodydd er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser y Bwrdd;<br>• gwella tryloywder a phwysigrwydd casglu adborth staff yn rhan o'r adolygiad allanol. | |
| 5.4 | Byddai'r Arbenigwr ar Gyfraith a Moeseg yn gwneud trefniadau i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen tymor byr. | KD |
| **6.** | **Ein gweithleoedd yn y dyfodol** | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| 6.1 | Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Busnes bapur a oedd yn amlinellu:<br>a) Strategaeth Ystadau wedi'i diwygio sydd hefyd yn ystyried yr hyn a ddysgwyd ers y pandemig ac roedd yn canolbwyntio ar alluogi gweithio'n ddoethach, lleihau costau a'r effaith amgylcheddol a gwella lles staff; ac<br>b) arfarniad opsiynau lefel uchel ar gyfer de a gorllewin Cymru fel rhagflaenydd ar gyfer gwerthusiad llawnach ym mis Gorffennaf. | |
| 6.2 | Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Busnes:<br>• bod gwaith i ddatblygu model busnes Archwilio Cymru a sefydlu ffyrdd doethach o weithio yn parhau;<br>• ychydig o ymateb a gafwyd hyd yma gan gyrff cyhoeddus eraill o ran cyfleoedd cydweithredu neu gyd-leoli posibl;<br>• nid oedd yn ymddangos bod marchnad eang o safleoedd addas; ac<br>• ni fu'n bosibl treialu ffyrdd newydd o weithio megis defnyddio Hybiau a lleoliadau gweithgareddau oherwydd y pandemig. | |
| 6.3 | Cafodd y Bwrdd drafodaeth gynhyrchiol ac eang ei chwmpas ynglŷn â'r opsiynau ac, heblaw am yr hyn amlinellir ym mharagraff 6.5 isod, cytunodd fod yr holl opsiynau'n ddilys. Fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd fod yr amgylchedd gweithredu yn newid yn gyflym, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i archwilio a datblygu'r egwyddorion strategol sy'n sail i ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Adroddodd EDCS ei fod yn cadw mewn cysylltiad â swyddfeydd archwilio eraill y DU ac y byddai'n adneuo gwybodaeth berthnasol am fodelau gweithio yn llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd yn y dyfodol. | EDCS |
| 6.4 | Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod yn fyr y potensial ar gyfer ymestyn y prydlesau ar gyfer safleoedd de Cymru am gyfnod byr pellach er mwyn caniatáu mwy o amser i ddatblygu'r model gweithio, asesu'r farchnad a dull cyrff cyhoeddus eraill a chynnal cynlluniau treialu. Cytunodd y Bwrdd y gellid ystyried y gronfa wrth gefn hon ymhellach yn yr haf pe bai angen. | |
| 6.5 | Fe wnaeth y Bwrdd:<br>a) gymeradwyo'r strategaeth ystadau wedi'i diwygio;<br>b) cadarnhau ei benderfyniad blaenorol i gysoni prydles Penllergaer â thymor prydles Heol y Gadeirlan;<br>c) diystyru'r opsiwn o wneud gwelliannau i'r safle presennol oherwydd y costau sylweddol posibl sydd ynghlwm;<br>d) cymeradwyo treialu ffyrdd newydd o weithio yn y fan a'r lle i ganiatáu amser staff i dreialu gwahanol ddulliau fel lleoliadau gweithgareddau a Hybiau (pan fo'n ddiogel gwneud hynny);<br>e) cytuno i barhau i ystyried yr ystâd gyhoeddus ar gyfer cydweithredu neu gyd-leoli posibl; a<br>f) cytuno i gulhau'r ardal chwilio am swyddfeydd o fewn radiws o 10 milltir i Gaerdydd er mwyn caniatáu dadansoddiad cadarn, yn | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | ogystal â chefnogi mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol, lleihau'r effaith ar staff, gwella perfformiad amgylcheddol. | |
| **7.** | **Adolygiad perfformiad gan gynnwys yr adroddiad risg strategol a'r adroddiad cyllid** | |
| 7.1 | Cyflwynodd EDCS bapur yn rhoi crynodeb ariannol ynghyd â diweddariad ar y gofrestr risg strategol. Eglurodd:<br>• y rhagwelir gwarged uwch ar gyfer diwedd y flwyddyn yn bennaf oherwydd newidiadau staffio; a<br>• bod y gyllideb gyfalaf mewn sefyllfa dda i gael ei gwario'n gyfan gwbl erbyn diwedd y flwyddyn. | |
| 7.2 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol ac anogodd y rheolwyr i ystyried a ellid datblygu cynllunio wrth gefn ar gyfer defnyddio unrhyw arian dros ben o'r fath yn y dyfodol, er enghraifft, ar fentrau buddsoddi i arbed. | EDCS/ NE |
| 7.3 | Eglurodd EDCS y newidiadau i'r gofrestr risg strategol gan gynnwys cau un risg, lle'r oedd elfennau allweddol wedi'u hamsugno i risgiau agored eraill, a dad-ddwysáu dwy risg i'r gofrestr risg weithredol. Tynnodd sylw'r Bwrdd at y risgiau strategol, enw da a gweithredol sy'n gysylltiedig ag ansawdd archwilio a oedd yn cynnwys:<br>• effaith gweithio o bell: er bod sgoriau uchel wedi'u derbyn gan Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr roedd y rhain yn ymwneud â gwaith a wnaed gan dimau sefydledig a gallai fod effaith o weithio o bell tymor hwy; a<br>• y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r safonau archwilio newydd a oedd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Ansawdd Archwilio, gyda chymorth y Cadeirydd fel cyswllt Bwrdd.<br>Cytunodd y Bwrdd fod y risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd archwilio yn hanfodol i gyflawni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ac felly roeddent yn risg strategol allweddol. | |
| 7.4 | Eglurodd EDCS y byddai'r ELT yn croesawu barn y Bwrdd ynghylch a ddylid cadw risg 0060/19 sy'n ymwneud ag ymgorffori'r diwylliant sefydliadol yn Archwilio Cymru ar y gofrestr risg strategol. Roedd y Bwrdd yn fodlon i'r risg gael ei dad-ddwysáu ar y sail y byddai risgiau diwylliannol yn cael eu cynnwys fel agwedd ymddygiadol ar risgiau eraill. | |
| 7.5 | Trafododd y Bwrdd yn fyr ddiben a swyddogaethau'r cofrestrau risg strategol a gweithredol ac atgoffodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr aelodau fod y strategaeth risg, a adolygwyd yn flynyddol, ar gael ar yr HUB. | |
| 7.6 | Amlinellodd EDCS berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Esboniodd nad oedd y data meincnodi gan Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ar gael eto ar gyfer 2020 ond bod disgwyl i'r canlyniadau fod yn sefydlog, gyda'r tebygolrwydd y byddai sgoriau Archwilio Cymru ar gyfer dysgu a datblygu ac arweinyddiaeth/newid yn parhau'n is na'r chwartel uchaf. Cadarnhaodd EDCS nad oedd data ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ansawdd archwilio ar | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | gael eto, ond bod barn ar gyfer archwilio ariannol a pherfformiad ar y gweill, er ychydig yn hwyrach nag arfer oherwydd diwygiadau i'r amserlen oherwydd Covid 19. | |
| 7.7 | Sicrhawyd y Bwrdd gan y cynnydd a adroddwyd, cymeradwyodd y diwygiadau i'r gofrestr risg ac fel arall nododd gynnwys yr adroddiad. | |
| **Rhan 4: i'w cymeradwyo** | | |
| **8.** | **Cynllun blynyddol drafft 2021-22** | |
| 8.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac adrodd y cynllun blynyddol drafft terfynol ar gyfer 2021-22. Esboniodd fod yr adran ar yr amgylchedd gweithredu yn cael ei datblygu i ystyried sylwadau'r Bwrdd a gwahoddodd sylwadau'r Bwrdd yn benodol ar y meysydd ffocws. | |
| 8.2 | Gwnaeth y Bwrdd rai awgrymiadau ar gyfer datblygu a chryfhau'r meysydd ffocws gan gydnabod nad ydym yn aml yn annibynnol ar ein gilydd i naill ai redeg y busnes neu'r archwiliad a gyflawnir, a bod y cynllun blynyddol wedi'i ddrafftio i fodloni gofynion statudol ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. | |
| 8.3 | Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 sydd bron yn derfynol i'w osod gerbron y Senedd erbyn 31 Mawrth 2021, gan ddirprwyo i gymeradwyo yn derfynol y rhagair, yr adran ar yr amgylchedd gweithredu a chynllun y dogfennau i'r Cadeirydd ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol. | LF/ACC |
| **9.** | **Cofnodion y cyfarfod ar 27 a 28 Ionawr 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi (gan ddefnyddio'r teclyn tracio camau gweithredu)** | |
| 9.1 | Yn amodol ar gywiro'r rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol, cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. | |
| 9.2 | Nododd y Bwrdd fod fersiwn SharePoint o'r teclyn tracio camau gweithredu bellach yn cael ei ddefnyddio a bod gan bob aelod fynediad llawn i weld a golygu eu gweithredoedd. | |
| **10.** | **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Asesu Risg** | |
| 10.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2021. Esboniodd fod y Pwyllgor yn bwriadu ailddechrau ei adolygiad strategol h.y. ym mis Medi 2021 ac y byddai'n croesawu sylwadau'r Bwrdd ar y pynciau i'w hadolygu. | |
| 10.2 | Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo:<br>• y telerau diwygiedig ar gyfer ymestyn contract gwasanaethau archwilio mewnol PwC am gyfnod o flwyddyn.<br>• blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2021-22. | |
| 10.3 | Nododd y Bwrdd y materion eraill a grynhoir yn adroddiad y Pwyllgor. | |
| **11.** | **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol** | |
| 11.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol adroddiad cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2021 a oedd yn cynnwys dau fater i'w penderfynu gan y Bwrdd. Tynnodd sylw'r Bwrdd at drafodaethau'r Pwyllgor ynghylch y cynllun ymadael gwirfoddol a bod meini prawf ar gyfer y cynllun ymadael gwirfoddol wedi'u cymhwyso yn gyffredinol. Er na fyddai pob achos yn darparu arbedion hirdymor, | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | byddai'r costau'n cael eu had-dalu, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon y bu ystyriaeth gadarn o'r achosion busnes. | |
| 11.2 | Trafododd y Bwrdd y meini prawf ar gyfer y cynllun ymadael gwirfoddol a nododd fod y cynllun wedi'i ddiweddaru i ddarparu chwe maen prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau a bod y rhain yn darparu fframwaith hyblyg a chlir. | |
| 11. 3 | Eglurodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol fod y Pwyllgor wedi ystyried yn ofalus gais y Cyfarwyddwr i ymadael yn wirfoddol ac am daliad ymadael sy'n uwch na'r cap ar y taliad ymadael (a oedd wedi'i ddileu yn Lloegr i fynd i'r afael ag anghysondeb cyfreithiol). Cymeradwyodd y Bwrdd y cais i ymadael yn wirfoddol gan y Cyfarwyddwr yn seiliedig ar daliad nad yw'n fwy na swm y cap talu o £95,000, gan ddirprwyo i'r Prif Weithredwr yr awdurdod i gwblhau telerau'r ymadawiad a'r cytundeb setliad cysylltiedig. | |
| 11.4 | Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor wedi ystyried cynllun diwygiedig ar gyfer cyflawni strategaeth y gweithlu a'i fod wedi cymeradwyo'r cynllun diwygiedig, yn amodol ar ymgorffori amserlenni clir a chanlyniadau arfaethedig. | |
| 11.5 | Rhoddodd EDCS y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr hawliad cyflog a ddisgwylid gan yr Undebau erbyn diwedd y mis ac roedd yn debygol o geisio cynnydd cyffredinol mewn cyflog, swm sylfaen i staff iau a gwyliau blynyddol ychwanegol. | |
| 11.6 | Nododd y Bwrdd y materion eraill a grynhoir yn adroddiad y Pwyllgor. | |
| **12.** | **Trefniadau cymorth y Bwrdd** | |
| 12.1 | Cyflwynodd EDCS bapur yn nodi cynigion ar gyfer gwella effeithiolrwydd a chadernid trefniadau ysgrifenyddol y Bwrdd, ei bwyllgorau, ELT a Bwrdd y Rhaglen Newid. | |
| 12.2 | Atgoffodd EDCS y Bwrdd:<br>• Dros y blynyddoedd, roedd esblygiad ac ehangiad trefniadau llywodraethu Archwilio Cymru wedi arwain at bwysau cynyddol ar gapasiti'r Bwrdd a'r ysgrifenyddiaeth weithredol.<br>• Roedd defnyddio model adnoddau lle mae holl gyfrifoldebau'r ysgrifenyddiaeth gan un person wedi arwain at erydu elfen gynghori rôl yr Ysgrifennydd yn sylweddol a bod yr Ysgrifennydd yn gweithio'n helaeth y tu hwnt i'r oriau yn y contract.<br>• Roedd diffyg cydnerthedd a chadernid yn y trefniadau blaenorol a risgiau i barhad busnes. | |
| 12.3 | Cadarnhaodd EDCS, yn dilyn cynllun treialu naw mis o drefniadau ysgrifenyddol amgen a gynlluniwyd i wella effeithiolrwydd a chadernid, fod yr adborth a gafwyd gan aelodau'r Bwrdd, y Pwyllgor ac ELT wedi bod yn gefnogol ac yn gadarnhaol dros ben. O dan y trefniadau hynny:<br>• Mae aelod o Dîm y Gyfraith a Moeseg yn cefnogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau o ran eu hanghenion ysgrifenyddol, cynghorol a'u hanghenion ymarferol eraill.<br>• Mae aelod o'r Tîm Cynllunio ac Adrodd yn rhoi cymorth tebyg i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a Bwrdd y Rhaglen Newid.<br>• Mae'r ddau unigolyn yn cyflenwi ar gyfer ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd, gyda chymorth Cynorthwy-ydd Gweithredol yr | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | Archwilydd Cyffredinol, i sicrhau bod y cylch busnes cyffredinol yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol a bod y fframwaith llywodraethu yn parhau i fod yn addas i'r diben.<br>• Mae Penaethiaid y Gyfraith a Moeseg a Chynllunio ac Adrodd yn darparu cymorth cynghori, technegol a chymorth arall ychwanegol yn ôl yr angen.<br>• Gwneir ôl-lenwi addas, ailddyrannu gwaith a threfniadau ailflaenoriaethu o fewn y timau Cyfraith a Moeseg a Chynllunio ac Adrodd.<br>• Mae'r EDCS a'r EDCC yn darparu goruchwyliaeth ac arweiniad strategol ar lywodraethu. | |
| 12.4 | Tynnodd EDCS sylw hefyd at rai meysydd allweddol yr oedd aelodau'r Bwrdd wedi tynnu sylw atynt yn eu sylwadau lle teimlwyd bod angen eglurhad a/neu gryfhau pellach. Roedd y rhain yn cynnwys arweinyddiaeth lywodraethu strategol; arbenigedd llywodraethu; blaengynllunio a sganio'r gorwel; rheoli ansawdd a phrydlondeb o ran agendâu a phapurau; ac effaith a gwerthuso. | |
| 12.5 | Gan ddefnyddio llwyddiant y cynllun treialu, nododd EDCS gynigion ar gyfer EDCS ac EDCC i wneud y trefniadau diwygiedig yn nodwedd barhaol o sefydliad Archwilio Cymru drwy fân ailstrwythuro'r timau Cynllunio ac Adrodd a'r Gyfraith a Moeseg. Cadarnhaodd:<br>• Byddai'r ailstrwythuro arfaethedig yn cael ei wneud yn unol â'r Polisi Ailstrwythuro.<br>• Ni fyddai ailstrwythuro o'r fath yn arwain at unrhyw gynnydd net i'r sefydliad blaenorol ac roedd yn debygol o sicrhau arbedion mewn costau staffio cyffredinol.<br>• Roedd y pwyntiau a godwyd gan aelodau'r Bwrdd yn eu hadborth ar y trefniadau treialu wedi'u hystyried wrth baratoi disgrifiadau swydd diwygiedig.<br>• Roedd meincnodi'r trefniadau diwygiedig â rhai asiantaethau archwilio eraill y DU wedi dangos cymaroldeb eang o ran cwmpas, cymysgedd sgiliau a chapasiti. | |
| 12.6 | Trafododd y Bwrdd y cynigion ar gyfer cymorth ysgrifenyddol y Bwrdd a'r Pwyllgor yn helaeth, a thrafodwyd:<br>• Dylai elfen Ysgrifennydd y Bwrdd o'r cynigion ddefnyddio arfer da o fannau eraill gan gynnwys y model a ddefnyddir gan y GIG yng Nghymru fel rhan o adolygiad ehangach o drefniadau llywodraethu ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r cynigion yn caniatáu digon o hyblygrwydd er mwyn peidio â chyfyngu trafodaeth strategol yn y dyfodol ynghylch llywodraethu a galluogi mireinio ac esblygu trefniadau llywodraethu.<br>• Mae angen datblygu cynllun llywodraethu ehangach ar gyfer y sefydliad.<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd dylai gadw fap sicrwydd y Bwrdd.<br>• Roedd ystyriaeth annigonol wedi'i rhoi i ofynion y Gymraeg ar gyfer cymorth y Bwrdd ar lefel unigol a thîm. | |

| Eitem | Cofnodion | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | • Dylai cymhwyster proffesiynol mewn llywodraethu corfforaethol a sgiliau iaith Gymraeg uwch fod yn ofynion hanfodol neu ddymunol ar gyfer swydd Ysgrifennydd y Bwrdd. | |
| 12.7 | Roedd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch a ddylai ystyried cymorth ar gyfer trefniadau llywodraethu ddod gerbron trafodaeth strategol ehangach i sicrhau bod llywodraethu yn addas i'r diben yn y tymor hwy. Fodd bynnag, o ystyried y sicrwydd na fyddai'r trefniadau'n cyfyngu ar drafodaeth o'r fath yn y dyfodol, cymeradwyodd y Bwrdd y cynigion. Cadarnhaodd yr EDCS ei fwriad i weithio gyda'r EDCC i ddatblygu'r gwaith o ailstrwythuro'r timau Cyfraith a Moeseg a Chynllunio ac Adrodd yn gyflym, yn unol â'r Polisi Ailstrwythuro a chydnabod yr angen i leihau ansicrwydd ac aflonyddwch i unigolion yr effeithir arnynt. | EDCS/ EDCC |
| **13.** | **Rhaglen waith y Bwrdd 2020-21** | |
| 13.1 | Trafododd y Bwrdd ei raglen waith dros dro a nododd y byddai'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn edrych ar hyd, ffurf a chynnwys cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol. Gwnaeth yr Aelodau awgrymiadau ar gyfer y rhaglen waith, gan gynnwys:<br>• y weledigaeth strategol i lywio datblygiad y cynllun blynyddol – byddai'r EDCS yn cynllunio hyn gyda'r ELT;<br>• adolygiad o gynnydd yn erbyn uchelgeisiau a mewnbwn i lywio'r 5 mlynedd nesaf yn ACC – byddai ACC yn ceisio mewnbwn dros yr haf<br>• datblygu cynaliadwy – sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd fel adolygiad yn erbyn y 5 ffordd o weithio gyda'r bwriad o lunio dull gweithredu yn y dyfodol – byddai'r EDCS yn trafod hyn ymhellach gydag Elinor Gwynn;<br>• diweddariadau sganio'r gorwel yn rheolaidd – byddai'r EDAS yn ystyried dull gweithredu;<br>• ymgysylltu â rhanddeiliaid, a swyddogaeth y Bwrdd – byddai'r Pwyllgor Datblygu Gwledig yn cynllunio hyn gyda'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd<br>• adolygu a gweithredu teithio a chynhaliaeth | Cadeirydd/K D<br>EDCS<br>AGW<br>EDCS<br>EDAS<br>EDCC |
| 13.2 | Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn diweddaru ac yn datblygu'r rhaglen waith dros dro. | KD |
| **15.** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 15.1 | Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau:<br>• i gyflwyno eu datganiadau buddiannau blynyddol; ac<br>• y byddai proses arfarnu aelodau'r Bwrdd yn dechrau ym mis Ebrill a byddai'n ddefnyddiol pe gallai aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu. | |
| **16.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 16.1 | Dydd Mercher 9 a dydd Iau 10 Mehefin 2021 | |